

Darparu eich hun fel Tyst

Fel tyst, ceisiwch ateb mor glir a syml â phosibl gan sylfaenu eich ateb ar dystiolaeth neu brofiad real.

Bydd y Pwyllgor neu Ymchwiliad Craffu yn medru galw dau fath o dyst. Y person neu swyddog sy'n gyfrifol am y gwasanaeth sy'n cael ei graffu; ac unrhyw un arall (swyddog, defnyddiwr neu berson arall) all gynorthwyo'r Pwyllgor neu Ymchwiliad i graffu.

1. Pwy fydd yn bresennol mewn Pwyllgor Craffu ac Ymchwiliad Craffu?

- Mae Pwyllgor Craffu yn cynnwys 18 aelod etholedig (cynghorwyr) ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Nid yw'r pwyllgor neu ymchwiliad yn cynnwys cynghorwyr sydd â chyfrifoldebau am wasanaethau. Gall Pwyllgor Craffu hefyd gynnwys aelodau cyfetholedig.

Bydd oddeutu 5 o swyddogion y Cyngor yn bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor e.e. Penaethiaid Adran, Swyddog Craffu a Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth. Mi fydd yr Aelodau Cabinet perthnasol sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau hefyd yn bresennol.

Cadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor fydd yn cadeirio'r cyfarfod.

- Mae Ymchwiliadau Craffu yn cynnwys cynghorwyr ac yn dwyn i mewn arbenigedd o gyrff ac asiantaethau eraill, yn cynnwys mewnbwn y Trydydd Sector a swyddogion y Cyngor.

Etholir Cadeirydd o fysg yr aelodau etholedig yn y cyfarfod cyntaf.

2. Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu ac Ymchwiliadau Craffu

Mae cyfarfodydd Pwyllgor Craffu ac Ymchwiliadau Craffu yn cael eu cynnal mewn ystafelloedd Pwyllgorau neu fannau eraill tu allan i'r Cyngor yn dibynnu ar y materion a fydd dan sylw. Byddwn yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi ble bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal.

Bydd copi o'r rhaglen ac unrhyw bapurau perthnasol yn cael eu hanfon atoch cyn y cyfarfod.

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd gwasanaeth cyfieithu ar gael ar gyfer pob cyfarfod.

3. Beth wnaiff aelodau Pwyllgor Craffu neu Ymchwiliad Craffu ofyn i mi?

Byddwch yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod a fydd yn cynnwys manylion y maes fyddwch yn cael eich holi arno. Gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth a fydd yn helpu'r Pwyllgor neu Ymchwiliad Craffu i baratoi argymhellion ar ddatblygu gwasanaethau ymhellach yn seiliedig ar eich tystiolaeth.

4. Paratoi ar gyfer rhoi tystiolaeth i gyfarfod o Bwyllgor Craffu neu Ymchwiliad Craffu

- ❖ Disgwylir i chi ddarllen y papurau fydd wedi eu hanfon atoch. Bydd hyn yn sicrhau bod gennych wybodaeth am brif bryderon neu ddatblygiadau sydd dan sylw.
- ❖ Bydd yn ddefnyddiol i chi baratoi nodyn i chi eich hun o bwyntiau y byddwch eisiau eu cyflwyno. Efallai bydd y Pwyllgor neu'r Ymchwiliad Craffu yn anfon rhestr o gwestiynau atoch gan wahodd eich ymateb ar bapur neu gyflwyniad, ond gwnewch hynny dim ond os bydd y Pwyllgor neu'r Ymchwiliad wedi gofyn i chi wneud hynny.
- ❖ Dylai eich tystiolaeth ysgrifenedig gynnwys y canlynol er mwyn galluogi aelodau i ddod i ganlyniad:
 - gwybodaeth ffeithiol
 - eich barn gan wneud yn glir beth yw sail y farn honno
- ❖ Dylid deall nad yw aelodau'r Pwyllgor neu Ymchwiliad Craffu yn arbenigwyr yn eich maes chi, felly ceisiwch osgoi defnyddio 'jargon' wrth roi atebion i gwestiynau.
- ❖ Siaradwch efo swyddogion sy'n cefnogi'r cyfarfod. Byddant yn gallu cadarnhau beth yw disgwyliadau aelodau'r cyfarfod ohonoch chi.
- ❖ Mae dod i gyfarfod un ai Bwyllgor neu Ymchwiliad Craffu yn gyfle da i chi gyflwyno gwybodaeth a chyfleu eich profiadau yn syth i'r aelodau etholedig.

5. Cyfrannu

Prif nod gwahodd cyfranwyr i gyfarfodydd yw cael tystiolaeth / gwybodaeth ychwanegol ac ystyried gwahanol brofiadau mewn perthynas â mater neu bryder penodol.

Ar sail y cyfraniadau a geir:

- bydd Cadeirydd yr Ymchwiliad Craffu yn cyflwyno argymhellion yr ymchwiliad i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.
- cyflwynir argymhellion gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu i'r Cabinet neu i'r Cyngor Llawn.

6. Gofynion Cyfranwyr

Os oes gennych unrhyw ofynion penodol neu anghenion mynediad er mwyn eich galluogi i gyfrannu, cysylltwch â Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu ar 01286 679020 neu ar e-bost Craffu@gwynedd.llyw.cymru fel y gellir gwneud y trefniadau mewn da bryd.

Os oes arnoch angen gwybodaeth ar ffurf arall, er enghraifft mewn print bras neu ar dâp, a fydddech cystal â rhoi gwybod inni cyn gynted ag y bo modd.

Os oes gennych sylwadau, boed y rhain yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar eich profiad o gyfrannu at y broses graffu, a fyddech cystal â chysylltu â Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu ar 01286 679020 neu ar e-bost Craffu@gwynedd.llyw.cymru

7. Ar ôl i chi gyfrannu

Bydd eich cyfraniad chi (ynghyd â chyfraniadau gan eraill) yn cael eu hystyried cyn i'r Pwyllgor Craffu wneud argymhellion i'r Cabinet neu'r Cyngor Llawn am benderfyniad.

Bydd croeso i gyfranwyr fod yn bresennol drwy gydol cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu, y Cabinet, a'r Cyngor Llawn ond heb yr hawl i drafod a phleidleisio.

Bydd copi o gofnodion y cyfarfod pwyllgor neu ymchwiliad yn cael eu hanfon atoch.